WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Asesu Corfforaethol 2015

# Cyngor Sir Caerfyrddin

Cyhoeddwyd: Ionawr 2016
Cyfeirnod y ddogfen: 704A2015



Paratowyd yr Adroddiad Asesu Corfforaethol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Jason Blewitt, Tim Buckle, Jeremy Evans, Alison Lewis, Gareth W Lewis, Margaret Maxwell a Geraint Norman o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Ar y cyd ag archwilwyr a benodir, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Y mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu i ddarparu adroddiadau cymesur ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd a meithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant wrth wneud hynny.

# Cynnwys


Adroddiad cryno 4

Cynigion ar gyfer gwella 5

Cyflwyniad 7

Adroddiad manwl 9

Gan arddangos uchelgais yn ei weledigaeth, a chyda chydarweinyddiaeth a threfniadau llywodraethu mwy cadarn a didwyll, mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn sicrhau canlyniadau gwell i'w ddinasyddion. Fodd bynnag, mae rhai dulliau wedi dyddio, a gallent arafu'r cynnydd 9

I raddau cynyddol, mae cydarweinyddiaeth yn cefnogi gweledigaeth ddiwygiedig ar gyfer Sir Gaerfyrddin ac yn cynnal diwylliant o welliant 10

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da wrth sefydlu trefniadau llywodraethu gwell sydd bellach yn fwy cadarn a thryloyw. Serch hynny, ceir cyfleoedd am welliannau pellach er mwyn galluogi'r Aelodau i gyflawni eu rolau'n fwy effeithiol 13

Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli ei adnoddau wedi gweithio'n dda yn y gorffennol, ond mae'r dull cyfredol wedi dyddio mewn rhai meysydd ac yn ddatgymalog, a gallai hyn arafu'r cynnydd tuag at sicrhau canlyniadau gwell i ddinasyddion 16

Mae'r Cyngor wedi hen sefydlu dull effeithiol o weithio mewn partneriaeth 26

Mae gan y Cyngor fframwaith da i reoli gwelliant, ond y mae diffyg ansawdd a gweithrediad cyson y fframwaith mewn rhai adrannau'n creu diffyg atebolrwydd 28

Ar y cyd â phartneriaid, mae'r Cyngor yn parhau i wella perfformiad ar draws ei feysydd â blaenoriaeth 34

Atodiadau

Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn 35

# Adroddiad cryno

1 Yn 2013-14, dechreuodd staff Swyddfa Archwilio Cymru gylch pedair blynedd o Asesiadau Corfforaethol ar awdurdodau gwella yng Nghymru. Mae hyn yn golygu y bydd pob Cyngor yn derbyn Asesiad Corfforaethol manwl unwaith bob pedair blynedd, yn ogystal â rhaglen flynyddol o astudiaethau gwella ac archwiliadau o'r modd y mae cynghorau'n cynllunio ac yn adrodd ar welliannau. Yn y blynyddoedd rhwng yr asesiadau, byddwn yn cadw golwg ar ddatblygiadau drwy roi diweddariadau ar gynnydd.

2 Roedd ein gwaith maes ar gyfer yr Asesiad Corfforaethol yn canolbwyntio ar y graddau y mae trefniadau'n cyfrannu at wella perfformiad gwasanaethau a'u canlyniadau i ddinasyddion. Ceisiai'r asesiad corfforaethol ateb y cwestiwn canlynol: 'A yw'r Cyngor yn gallu cyflawni ei flaenoriaethau a sicrhau canlyniadau gwell i'w ddinasyddion?'

3 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliadau canlynol: Bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn sicrhau canlyniadau gwell i'w ddinasyddion, gan arddangos uchelgais yn ei weledigaeth, gyda chydarweinyddiaeth a threfniadau llywodraethu mwy cadarn a didwyll. Fodd bynnag, mae rhai dulliau wedi dyddio, a gallent arafu'r cynnydd. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

a i raddau cynyddol, mae cydarweinyddiaeth yn cefnogi gweledigaeth ddiwygiedig ar gyfer Sir Gaerfyrddin ac yn cynnal diwylliant o welliant;

b mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da wrth sefydlu trefniadau llywodraethu gwell sydd bellach yn fwy cadarn a thryloyw. Serch hynny, ceir cyfleoedd am welliannau pellach er mwyn galluogi'r Aelodau i gyflawni eu rolau'n fwy effeithiol;

c mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli ei adnoddau wedi gweithio'n dda yn y gorffennol, ond mae'r dull cyfredol wedi dyddio mewn rhai meysydd ac yn ddatgymalog, a gallai hyn arafu'r cynnydd tuag at sicrhau canlyniadau gwell i ddinasyddion:

- nid oes cysylltiadau clir rhwng cynlluniau gwasanaeth a chynlluniau ariannol, nid yw arbedion unigol yn cael eu monitro'n rheolaidd, ac mae gwendidau wrth reoli grantiau'n parhau i fod yn destun pryder. Gallai hyn amharu ar allu'r Cyngor i ymateb i heriau ariannol y dyfodol;
- mae dull y Cyngor o reoli pobl yn gweithio'n dda, ac mae'n mynd i'r afael â rhai o'r prif feysydd y mae angen eu hatgyfnerthu, fel cynlluniau strategol y gweithlu;
- mae sawl ffactor yn amharu ar allu'r Cyngor i reoli ei sylfaen o asedau'n effeithiol ar hyn o bryd; ac
- er iddo fod yn araf wrth ymateb i'r diffygion sylweddol yn ei drefniadau TGCh, mae'r Cyngor bellach yn cymryd camau er mwyn gwella.

ch mae'r Cyngor wedi hen sefydlu dull effeithiol o weithio mewn partneriaeth;

d mae gan y Cyngor fframwaith da i reoli gwelliant, ond y mae diffyg ansawdd a gweithrediad cyson y fframwaith mewn rhai adrannau'n creu diffyg atebolrwydd; ac

dd ar y cyd â phartneriaid, mae'r Cyngor yn parhau i wella perfformiad ar draws ei feysydd â blaenoriaeth.

## Cynigion ar gyfer gwella

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| C1 | Llywodraethu:<br>• Datblygu rhaglenni gwaith i'r dyfodol er mwyn sicrhau bod yr holl bwyllgorau priodol wedi cyhoeddi rhaglen gyfredol sy'n eiddo i Aelodau pwyllgor.<br>• Cyhoeddi cofrestr o benderfyniadau sydd wedi'u dirprwyo.<br>• Datblygu a chyflwyno hyfforddiant i helpu Aelodau i ddeall eu rolau a'u cyfrifoldebau, a gloywi'r hyfforddiant a gyflwynwyd wrth i Aelodau symud o'r naill rôl i'r llall.<br>• Adolygu cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni'n unol â'r disgwyliadau ar ei gyfer. |
| C2 | Y Defnydd o Adnoddau - Cyllid:<br>• Datblygu cysylltiadau mwy eglur rhwng y cynllun ariannol tymor canolig (CATC) a chynlluniau gwella'r Cyngor, gan fanylu ar effaith cyfyngiadau ariannol ar ganlyniadau i ddinasyddion.<br>• Datblygu a defnyddio meincnodau a Dangosyddion Gwerth am Arian wrth bennu cyllidebau, er mwyn creu sail well wrth wneud penderfyniadau, a chreu cyfleoedd pellach i drafod a herio costau presennol, gan ganfod arbedion effeithlonrwydd pellach o bosib.<br>• Gwella adroddiadau ariannol drwy:<br>– ddatblygu cysylltiadau cliriach rhwng perfformiad ariannol a pherfformiad gwasanaethau, gan gynnwys llunio cyd-adroddiadau ar arian a pherfformiad i'r Aelodau;<br>– monitro ac adrodd ar dargedau arbed unigol er mwyn sicrhau bod meysydd lle cyflawnir yn well neu'n waelach na'r disgwyl yn cael eu nodi'n glir, fel bo modd herio'n effeithiol, cymryd camau unioni a rhannu arfer da;<br>– darparu gwybodaeth ddigonol am gronfeydd wrth gefn a thrywydd archwilio clir ar gyfer penderfyniadau ynghylch y cronfeydd hynny; a<br>– chysylltu â'r Aelodau er mwyn sicrhau bod gwybodaeth ariannol yn cyd-fynd â'u hanghenion.<br>• Atgyfnerthu trefniadau caffael drwy:<br>– adolygu'r rhesymau dros beidio cydymffurfio â gweithdrefnau a chymryd camau unioni er mwyn atal hynny rhag digwydd eto;<br>– llunio a chadw Cofrestr Tendrau a Chofrestr Contractau;<br>– llunio a chadw rhestr o weithrediadau tendr sengl, ac adrodd yn rheolaidd arni wrth y Pwyllgor Archwilio; ac<br>– adolygu'r gwahaniaethau yn nefnydd y Cyngor o gontractau fframwaith er mwyn ysgogi proses fwy cyson i'r dyfodol. |

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| C3 | Y Defnydd o Adnoddau - Pobl:<br>• Cwblhau a gweithredu'r strwythur diwygiedig ar gyfer yr Is-adran Rheoli Pobl a Pherfformiad (RhPPh).<br>• Sicrhau bod gan bob aelod o staff arfarniad unigol o berfformiad bob blwyddyn.<br>• Symleiddio mecanweithiau cyfathrebu oddi mewn i RhPPh, a'r rhai a ddefnyddir ar gyfer cyfathrebu â'r gweithlu ehangach ynghylch mentrau rheoli pobl.<br>• Adolygu'r cyfarpar a'r systemau TGCh a ddefnyddir oddi mewn i RhPPh ac ysgogi datblygiadau er mwyn cyflawni'r canlynol o leiaf:<br>– cofnod personél cyfun;<br>– hunanwasanaeth effeithiol;<br>– trefniadau gweithio ystwyth ar gyfer swyddogion RhPPh;<br>– cyfleu gofyniad busnes clir ar gyfer TGCh wrth y Grŵp Strategaeth TGCh; a<br>– defnydd mwy effeithiol o'r system adrodd Insight. |
| C4 | Y Defnydd o Adnoddau - Asedau:<br>• Atgyfnerthu'r cynlluniau rheoli asedau ar lefel gwasanaeth, a gwella'r cysylltiadau rhwng y cynlluniau hyn â'r cynllun rheoli asedau corfforaethol trosfwaol.<br>• Rhoi adroddiadau i'r Aelodau bob chwarter ar gynnydd yn erbyn y cynllun rheoli asedau corfforaethol a'r strategaeth swyddfeydd. |
| C5 | Y Defnydd o Adnoddau - TGCh a Rheoli Gwybodaeth:<br>• Sicrhau bod ffrydiau gwaith TGCh yn datrys y diffyg cysylltiad honedig rhwng y busnes a'r gwasanaeth TGCh ac yn rhoi ystyriaeth briodol i anghenion busnes. |
| C6 | Cynllunio ar gyfer Gwella<br>• rhoi cyfarwyddyd cliriach a lefel broffesiynol o her ar bob mater rheoli perfformiad er mwyn sicrhau bod fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor yn cael ei weithredu'n gyson a rhannu arfer da. |

# Cyflwyniad

4 Yn 2013-14, dechreuodd staff Swyddfa Archwilio Cymru gylch pedair blynedd o Asesiadau Corfforaethol ar awdurdodau gwella yng Nghymru. Mae hyn yn golygu y bydd pob Cyngor yn derbyn Asesiad Corfforaethol manwl unwaith bob pedair blynedd, yn ogystal ag astudiaethau o raglenni blynyddol ar gyfer gwella ac archwiliadau o'r modd y mae cynghorau'n cynllunio ac yn adrodd ar welliannau. Yn y blynyddoedd rhwng yr asesiadau, byddwn yn cadw golwg ar ddatblygiadau. Yn ein gwaith asesu pellach, byddwn hefyd yn canolbwyntio ar sawl thema allweddol a ddatblygir yn seiliedig ar drafodaeth gyda phob Cyngor.

5 Cynhaliom ein gwaith maes ar gyfer yr Asesiad Corfforaethol yng Nghyngor Sir Caerfyrddin (y Cyngor) yn ystod mis Hydref 2015. Er nad yw'r Asesiad Corfforaethol yn anelu i roi dadansoddiad cynhwysfawr o berfformiad holl wasanaethau'r Cyngor, mae'n adrodd ar ganlyniadau'r Cyngor a'i hanes o berfformio, yn ogystal â'r trefniadau allweddol sydd eu hangen yn sail ar gyfer gwelliannau i wasanaethau a swyddogaethau.

6 Cwblhawyd y gwaith hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Gyda chymorth arolygiaethau Cymru, Estyn (ar gyfer addysg), Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), a Chomisiynydd y Gymraeg, rydym wedi creu darlun o'r hyn y mae'r Cyngor yn ceisio'i gyflawni, sut y mae'n mynd ati i wneud hynny, a'r cynnydd y mae wedi'i wneud.

7 Ni ddylid ystyried bod y casgliad hwn yn rhoi datganiad pendant ynghylch sefyllfa'r sefydliad nac yn rhagfynegi ei lwyddiant yn y dyfodol. Yn hytrach, dylid ystyried ei fod yn rhoi barn am y graddau y mae'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn rhesymol gadarn, i'r graddau y gellir nodi hynny ar sail y gwaith a gyflawnwyd.

8 Roedd ein gwaith maes ar gyfer yr Asesiad Corfforaethol yn canolbwyntio ar y graddau y mae trefniadau'n cyfrannu at wella perfformiad gwasanaethau a'u canlyniadau i ddinasyddion. Ceisiai'r asesiad corfforaethol ateb y cwestiwn canlynol: 'A yw'r Cyngor yn gallu cyflawni ei flaenoriaethau a sicrhau canlyniadau gwell i'w ddinasyddion?'

9 Mae'r Asesiad Corfforaethol yn trafod y canlynol:

Gweledigaeth a chyfeiriad strategol:

- 'A yw gweledigaeth a chyfeiriad strategol y Cyngor yn cefnogi gwelliant?'

Llywodraethu ac atebolrwydd:

- 'A yw trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd y Cyngor yn cefnogi proses gadarn ac effeithiol o wneud penderfyniadau?'

Y Defnydd o Adnoddau:

- 'A yw'r Cyngor yn rheoli ei adnoddau yn effeithiol er mwyn cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo o ran perfformiad a chanlyniadau?'

Cydweithio a phartneriaethau:

- 'A yw trefniadau cydweithio a phartneriaeth y Cyngor yn gweithio'n effeithiol er mwyn gwella perfformiad a chanlyniadau?'

Rheoli gwelliant:

- ‘A yw’r Cyngor yn rheoli ei raglen wella mewn modd effeithiol?’

Perfformiad a chanlyniadau:

- ‘A yw’r Cyngor yn gwneud cynnydd ar gyflawni’r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo o ran perfformiad a chanlyniadau?’

10 Mae’r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd, ac oni nodir fel arall, yn adlewyrchu’r sefyllfa wrth gwblhau’r gwaith hwnnw.

11 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor a’r heriau y mae’n eu hwynebu, byddai’n anarferol pe na baem wedi cael hyd i bethau y gellid eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

a Wneud cynigion ar gyfer gwella - byddwn yn gwneud y cynigion hynny yn yr adroddiad hwn ac yn mynd ar drywydd yr hyn sy’n digwydd.

b Gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae’n rhaid i’r Cyngor baratoi ymateb i’r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith. Nid oes unrhyw reswm i wneud argymhellion o’r fath.

c Cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion. Nid oes unrhyw reswm i gynnal arolygiad o’r fath.

ch Argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd neu’i gilydd. Nid oes unrhyw reswm i wneud argymhelliad o’r fath.

12 Rydym am wybod a yw’r adroddiad hwn yn rhoi’r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw’n hawdd ei ddeall. Cewch rannu eich safbwyntiau â ni drwy anfon e-bost atom yn post@archwilio.cymru neu drwy ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

## Adroddiad manwl

Gan arddangos uchelgais yn ei weledigaeth, a chyda chydarweinyddiaeth a threfniadau llywodraethu mwy cadarn a didwyll, mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn sicrhau canlyniadau gwell i'w ddinasyddion. Fodd bynnag, mae rhai dulliau wedi dyddio, a gallent arafu'r cynnydd



# I raddau cynyddol, mae cydarweinyddiaeth yn cefnogi gweledigaeth ddiwygiedig ar gyfer Sir Gaerfyrddin ac yn cynnal diwylliant o welliant

## Yn ddiweddar, lansiodd y Cyngor weledigaeth ddiwygiedig, sy'n rhoi adfywio wrth wraidd popeth a wna

13 Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o'r cyd-destun lleol y mae'n gweithredu ynddo, sy'n seiliedig ar Gyd-asesiad Anghenion Strategol a hanes da o ymgysylltu'n effeithiol â chymunedau a rhanddeiliaid. Mae hyn yn cynnwys y Panel Dinasyddion, arolygon bodlonrwydd cwsmeriaid lleol a chenedlaethol, arolygon Fforymau Dros Hanner Cant, ymgysylltu â thenantiaid a sioeau teithiol i ymgynghori ar y gyllideb.

14 Dros y pedair blynedd diwethaf, mae gweledigaeth glir a sefydledig, gan gynnwys amcanion lefel uchel, wedi llywio gweithgarwch gwella'r Cyngor. Dyma'r amcanion hyn, a gymerwyd o Strategaeth Gymunedol Integredig (SGI) y Bwrdd Gwasanaethau Lleol:

- a mae pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach;
- b mae pobl yn Sir Gaerfyrddin yn gwireddu eu potensial i ddysgu;
- c mae pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin, ac sy'n ymweld â'r Sir, yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel;
- ch mae cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy; ac
- d mae gan Sir Gaerfyrddin economi gryfach a mwy ffyniannus.

Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor wedi cyhoeddi cyfres o werthoedd craidd i lywio'r modd y mae'n cyflawni ei fusnes. Ychwanegodd y Cyngor at y gyfres hon o werthoedd yn 2014 drwy bennu'r uchelgais i fod y 'Cyngor mwyaf agored a thryloyw yng Nghymru'.

15 Ar 9 Hydref 2015, lansiodd y Cyngor ei weledigaeth ddiwygiedig, gan osod adfywio wrth wraidd popeth a wna. Mae'r weledigaeth ddiwygiedig hon yn adeiladu ar lwyddiant y gorffennol ac yn amlinellu cyfres o chwech o brosiectau adfywio newydd ledled y sir. Drwy adeiladu ar y gorffennol, mae'r weledigaeth ddiwygiedig yn cydweddu'n dda ag amcanion lefel uchel presennol a phartneriaethau presennol, yn enwedig partneriaethau'r BGLI a Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

16 Mae Aelodau'r Bwrdd gweithredol ac uwch swyddogion yn arddangos dealltwriaeth glir a thrylwyr o'r weledigaeth ddiwygiedig. Camau nesaf y Cyngor yw ymgysylltu â'r sylfaen ehangach o staff fel eu bod yn deall sut maent yn cyfrannu at yr uchelgais cyffredinol.

17 Yn ogystal ag adeiladu ar nodau blaenorol y Cyngor, mae'r weledigaeth yn cynnwys ymglymiad ac aliniad clir â gwaith Dinas-ranbarth Bae Abertawe a Grŵp Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Mae'r Cyngor a Grŵp Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant wedi llofnodi adduned i gydweithio. Mae'r adduned yn adlewyrchu nifer o feysydd lle ceir blaenoriaethau cyffredin:

a datblygu cynaliadwy;

b atal tlodi a datblygiad economaidd a chymunedol;

c sgiliau a'r farchnad lafur;

ch menter ac arloesi; a

d diwylliant chwaraeon, twristiaeth a threftadaeth.

18 Y mae'r Cyngor a Grŵp Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn aelodau o'r BGLl, ac ers ein hadolygiad mae'r Cyngor wedi cyfleu'r weledigaeth yn ffurfiol wrth y BGLl.

## Yn gynyddol, mae cydarweinyddiaeth yn ysgogi diwylliant o welliant parhaus

19 Ffurfiwyd gweinyddiaeth gyfredol y Cyngor ym mis Mai 2015, ac mae'n rhoi arweiniad a chyfarwyddyd cryf a chydlynol. Mae gan y Bwrdd Gweithredol ethos 'tîm' cryf, ac mae unigolion mwy profiadol yn mentora a chefnogi Aelodau newydd y Bwrdd Gweithredol.

20 Er y bydd etholiadau'n cael eu cynnal mewn dwy flynedd, mae'r weinyddiaeth newydd wedi mabwysiadu rhaglen waith bum mlynedd tymor hwy, gan bennu amserlen realistig i ysgogi newid a gwelliant.

21 Cafwyd newid sylweddol i'r Tîm Rheoli Corfforaethol (TRhC). Dros y 12 mis diwethaf, mae pedwar cyfarwyddwr wedi ymddeol, ac mae aelod arall o'r TRhC wedi symud i Gyngor arall: dim ond tri o aelodau'r TRhC sydd ar ôl. Mae'r Cyngor wedi achub ar y cyfle i leihau nifer y cyfarwyddwyr ac addasu eu cylchoedd gwaith, ond wedi cymryd amser i recriwtio'r 'bobl gywir i'r rolau cywir'. Ceir brwdfrydedd ac egni newydd yn y TRhC yn sgil y newidiadau.

22 Mae cylchoedd gwaith diwygiedig y cyfarwyddiaethau'n ysgogi gostyngiad cadarnhaol mewn seilos mewnol, gan ddod â gwasanaethau ynghyd. Enghraifft dda o hyn yw'r Gyfarwyddiaeth Cymunedau, sydd bellach yn cynnwys Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Chymdeithasol, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, Diogelu'r Cyhoedd a Thai a Hamdden a Chwaraeon. Mae cydleoli penaethiaid gwasanaeth hefyd yn esgor ar fanteision ychwanegol, ac yn amlygu effaith newidiadau yn un rhan o'r gyfarwyddiaeth ar y rhannau eraill.

23 Mae’r Bwrdd Gweithredol newydd a’r TRhC ar ei newydd wedd yn cydweithio’n dda â’i gilydd, mae perthnasoedd rhwng Aelodau a swyddogion yn adeiladol ac mae Aelodau’r Bwrdd Gweithredol yn herio swyddogion yn dda oddi mewn i ddiwylliant heb fai. Mae gweledigaeth ddiwygiedig y Cyngor yn amlwg yn eiddo i’r Bwrdd Gweithredol, ac mae Aelodau’r Bwrdd Gweithredol yn chwarae rhan weithredol wrth bennu blaenoriaethau, cynllunio busnes a nodi mannau lle gellir lleihau costau. Ceir amrywiaeth o wybodaeth i’w cefnogi yn y rôl hon, naill ai ar bapur neu drwy seminarau’r Aelodau.

24 Mae’r arweinyddiaeth hon, a gyflawnir fwyfwy ar y cyd, yn gysylltiedig â’r pwysau cyfredol ar gyllidebau, yn cyfrannu at ddatblygu diwylliant o newid ac arloesi ar draws y Cyngor. Mae hyn yn atgyfnerthu’r ffocws ar welliannau, ac yn creu parodrwydd i archwilio dulliau eraill o gyflenwi gwasanaethau.

# Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da wrth sefydlu trefniadau llywodraethu gwell sydd bellach yn fwy cadarn a thryloyw. Serch hynny, ceir cyfleoedd am welliannau pellach er mwyn galluogi'r Aelodau i gyflawni eu rolau'n fwy effeithiol

## Mae'r Cyngor yn cynyddu tryloywder ei drefniadau llywodraethu

25 Un o amcanion gwella allweddol y Cyngor ar gyfer 2015-16 yw 'adolygu'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, gwneud penderfyniadau, bod yn agored ac yn dryloyw', ac mae gan y Cyngor uchelgais cadarnhaol iawn sef bod y 'Cyngor mwyaf agored a thryloyw yng Nghymru'. Er mwyn cefnogi gwaith i gyflawni'r amcan gwella hwn, comisiynodd y Cyngor Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i gynnal adolygiad cymheiriaid.

26 Yn dilyn hyn, mae'r Cyngor wedi cyflwyno sawl newid i'w drefniadau llywodraethu, gan gynnwys:

- a gwe-ddarlledu cyfarfodydd y Cyngor, y Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgor Cynllunio;
- b cyflwyno eitem sefydlog ar gyfarfodydd y Cyngor, y Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgor Craffu ar gyfer cwestiynau gan y cyhoedd a chynghorwyr; ac
- c adolygu ei weithdrefn galw i mewn er mwyn galluogi unrhyw dri o Aelodau'r Cyngor i alw penderfyniad a wnaed gan y Weithrediaeth i mewn.

27 Mae perthnasoedd cyffredinol rhwng yr Aelodau, a rhwng swyddogion a'r Aelodau yn gwella, ac fe geir perthynas waith adeiladol rhwng y Bwrdd Gweithredol a'r TRhC. Mae'r Aelodau Gweithredol hefyd yn cymryd mwy o berchnogaeth ar eu portffolios, er enghraifft, mae disgwyl iddynt bellach gyflwyno adroddiadau yng nghyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol, ac maent wedi cymryd rhan yn y gwaith o herio cynlluniau busnes meysydd gwasanaeth oddi mewn i'w portffolios. Wrth i Aelodau'r Bwrdd Gweithredol ennill profiad, mae'r cysylltiadau rhwng blaenoriaethau deiliaid portffolio unigol a blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor yn dod yn gliriach iddynt.

28 Er bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd, ceir lle o hyd i wella tryloywder rhai agweddau ar drefniadau'r Cyngor. Er enghraifft, nid yw'r Cyngor yn cyhoeddi cofnodion penderfyniadau a gaiff eu dirprwyo i swyddogion unigol, ac mae'r Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn dal heb ddatblygu rhaglenni gwaith i'r dyfodol. Mae rhaglenni gwaith i'r dyfodol pwyllgorau trosolwg a chraffu'r cyngor yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor. Fodd bynnag, wrth eu harchwilio canfuom nad yw'r rhain wedi cael eu diweddaru ers tro, a'u bod wedi nodi'n fersiynau 'drafft' o hyd.

## Mae'r Cyngor yn atgyfnerthu ei ddull o hyfforddi a datblygu'r Aelodau, ond mae angen cyflwyno gwelliannau pellach er mwyn cynorthwyo'r Aelodau i gyflawni eu rolau penodol yn effeithiol oddi mewn i drefniadau llywodraethu'r Cyngor

29 Mabwysiadodd y Cyngor Strategaeth Datblygu'r Aelodau yn 2013, ac y mae wedi darparu amrywiaeth o hyfforddiant i'r Aelodau etholedig, ac mae'r hyfforddiant i Aelodau sy'n eistedd ar y Pwyllgor Cynllunio a Thrwyddedu'n orfodol. Mae'r Cyngor hefyd wedi enwebu Aelod o'r Bwrdd Gweithredol i hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi a datblygu Aelodau etholedig. Fodd bynnag, clywsom farn gymysg ynghylch effeithiolrwydd ac argaeledd yr hyfforddiant i Aelodau etholedig hyd yma. Roedd rhai o'r Aelodau'n fodlon eu bod yn derbyn hyfforddiant ar gais, ond credai eraill y byddai'n fuddiol cael hyfforddiant ychwanegol, yn enwedig mewn perthynas â rolau penodol yr oedd yr Aelodau'n eu cyflawni o fewn y Cyngor.

30 Enghraifft o'r diffyg eglurder a geir ymhlith yr Aelodau ynghylch rolau yw rôl Aelodau'r Bwrdd Gweithredol yn y broses graffu. Mae'r Cyfansoddiad yn disgrifio rôl Aelodau'r Bwrdd Gweithredol ac uwch swyddogion, a'r hyn a ddisgwylir ganddynt mewn cyfarfodydd pwyllgorau craffu. Mae'r Cyngor wedi cytuno y bydd Aelodau'r Bwrdd Gweithredol yn bresennol mewn cyfarfodydd pwyllgorau craffu i gyflwyno adroddiadau a gofyn cwestiynau. Er gwaethaf hyn, yn ymarferol canfuom fod dryswch o hyd ymhlith Aelodau etholedig ynghylch rôl Aelodau'r Bwrdd Gweithredol mewn cyfarfodydd pwyllgorau craffu, a bod y rhan fwyaf o gwestiynau yn y cyfarfodydd hynny wedi cael eu cyfeirio at swyddogion hyd yma, yn hytrach nag at Aelodau'r Bwrdd Gweithredol. Nid yw Aelodau'r Bwrdd Gweithredol yn achub ar y cyfle i gamu i mewn i'r drafodaeth.

31 Mae Cyfansoddiad y Cyngor hefyd yn cynnwys trefniadau clir i Aelodau'r Bwrdd Gweithredol ymateb i'r argymhellion a geir gan bwyllgorau craffu, gan gynnwys gofyniad i nodi'r rhesymau dros wrthod argymhelliad. Fodd bynnag, clywsom rai pryderon nad oedd rhesymau'n cael eu rhoi bob tro wrth wrthod argymhellion.

32 Ceir enghreifftiau o waith craffu effeithiol, gan gynnwys gwaith y grwpiau gorchwyl a gorffen, ee, adolygiad o gartrefi gwag a arweiniodd at gyflwyno sawl argymhelliad i'r Bwrdd Gweithredol. Fodd bynnag, nid wnaeth holl bwyllgorau craffu'r Cyngor sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen yn ystod 2014-15.

33 Ceir diffyg eglurder ar adegau ynghylch diben rhai o'r eitemau a ystyrir gan bwyllgorau craffu, gyda sawl adroddiad yn cael ei 'dderbyn' heb unrhyw ganlyniad clir o'r trafodaethau. Gallai'r diffyg eglurder ynghylch diben eitemau craffu a'r diffyg rhyngweithio rhwng Aelodau'r Bwrdd Gweithredol a'r pwyllgorau craffu leihau gallu'r pwyllgorau craffu i ddwyn y Weithrediaeth i gyfrif yn effeithiol. Dyma gyfle i gadeiryddion/Aelodau craffu gynyddu eu perchnogaeth ar yr agenda ac ar gynnwys a ffocws y rhaglenni gwaith i'r dyfodol.

34 Mae'r Cyngor wedi trefnu cyfleoedd i'r cyhoedd ymgysylltu â phwyllgorau craffu, gan fod y cyhoedd yn gallu gofyn am gael cynnwys eitemau ar agendâu'r pwyllgorau craffu, a hefyd yn cael gofyn cwestiynau mewn cyfarfodydd pwyllgorau craffu. Fodd bynnag, yr oedd rhai o'r Aelodau'n cydnabod bod cynnwys y cyhoedd yn y broses graffu yn faes y gellid ei wella.

35 Ceir cyfleoedd i atgyfnerthu gweithrediad Pwyllgor Archwilio'r Cyngor ac i sicrhau ei fod yn cyflawni ei gylch gwaith[1], ee, drwy sicrhau bod y Pwyllgor yn derbyn copi o'r holl adroddiadau rheoleiddiol, drwy sicrhau ei fod yn ystyried adroddiadau ariannol, risg a thwyll, a thrwy gynyddu'r wybodaeth a rennir â'r pwyllgor ynghylch cofrestr risgiau'r Cyngor ac eitemau cyfyngedig.

## Cynnig ar gyfer Gwella

| | |
|---|---|
| C1 | Llywodraethu:<br>• Datblygu rhaglenni gwaith i'r dyfodol er mwyn sicrhau bod yr holl bwyllgorau priodol wedi cyhoeddi rhaglen gyfredol sy'n eiddo i Aelodau pwyllgor.<br>• Cyhoeddi cofrestr o benderfyniadau sydd wedi'u dirprwyo.<br>• Datblygu a chyflwyno hyfforddiant i helpu Aelodau i ddeall eu rolau a'u cyfrifoldebau, a gloywi'r hyfforddiant a gyflwynwyd wrth i Aelodau symud o'r naill rôl i'r llall.<br>• Adolygu cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni'n unol â'r disgwyliadau ar ei gyfer. |

1 **CIPFA Audit Committees: Practical guide for Local Authorities and Police 2013**

# Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli ei adnoddau wedi gweithio'n dda yn y gorffennol, ond mae'r dull cyfredol wedi dyddio mewn rhai meysydd ac yn ddatgymalog, a gallai hyn arafu'r cynnydd tuag at sicrhau canlyniadau gwell i ddinasyddion

## Nid oes cysylltiadau clir rhwng cynlluniau gwasanaeth a chynlluniau ariannol, nid yw arbedion unigol yn cael eu monitro'n rheolaidd, ac mae gwendidau wrth reoli grantiau'n parhau i fod yn destun pryder. Gallai hyn amharu ar allu'r Cyngor i ymateb i heriau ariannol y dyfodol

36 Mae'r Cyngor yn ymgynghori'n helaeth ar gynigion ar gyfer arbedion cyllidebol, a gwnaed tybiaethau cynllunio cynhwysfawr a rhesymol wrth bennu'r diffyg yng nghyllideb y Cyngor ar gyfer 2015-16. Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor wedi defnyddio amrywiaeth o senarios a dadansoddiadau sensitifrwydd i fodelu amcanestyniadau ar gyfer diffygion cyllidebol y cyfnod 2016-17 hyd 2018-19. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor ond yn cynnal ychydig o gymariaethau meincnodi/gwerth am arian yn gysylltiedig â gwasanaethau penodol wrth bennu'r gyllideb, datblygu ei arbedion effeithlonrwydd ac ar raddfa ehangach o ran costau ac incwm y Cyngor. Mae hyn yn cyfyngu ar y cyfle i drafod meysydd lle gellid cael costau uchel / taliadau isel. Mae'r Cyngor wedi datgan ei fod yn diweddaru ei ddull o weithredu drwy ddatblygu hyn yn rhan o'r broses o bennu'r gyllideb ar gyfer 2016-17.

37 Mae gan y Cyngor hanes da o ran bodloni cyllidebau blynyddol yn erbyn y camau cynlluniedig a gymeradwywyd ganddo. Mae cynlluniau a threfniadau'r Cyngor i sicrhau arbedion yn addas i'r diben ac yn cael eu rheoli'n effeithiol. Mae'r broses o bennu'r gyllideb yn enwedig yn gadarn ac amserol, ac yn cynnwys ymgysylltu da â'r Aelodau. Fodd bynnag, nid oes cysylltiadau eglur rhwng cynlluniau gwasanaeth a chynlluniau ariannol, ac nid yw'r broses o gynllunio gwasanaethau a phennu cyllidebau wedi'u halinio'n llwyr â'i gilydd. Oherwydd lefel yr arbedion sydd eu hangen dros y blynyddoedd nesaf, mae'r Cyngor yn cydnabod ei bod hi'n bwysig iddo ddiweddaru ei ddull o weithredu drwy sicrhau cysylltiadau eglur rhwng cynlluniau busnes a chynlluniau ariannol.  Mae'r Cyngor hefyd yn ceisio alinio'r broses fusnes â'r broses o bennu'r gyllideb ar gyfer 2016-17.

38 Mae'r Cyngor yn monitro ei gyllideb bob yn ddeufis gan gyflwyno adroddiadau i'r Bwrdd Gweithredol a'r TRhC cyn eu cyflwyno gerbron y pwyllgorau craffu perthnasol. Mae'r adroddiadau'n darparu gwybodaeth ariannol gywir a digonol, ynghyd â sylwebaeth fel bo modd herio gwariant sy'n wahanol i'r gyllideb gymeradwy. Fodd bynnag, nid oes digon o dryloywder ynghylch y cynnydd wrth sicrhau arbedion cyllidebol, gan na cheir adroddiadau unigol ar gyflawni arbedion cyllidebol a'r risgiau cysylltiedig. Yn ogystal â hyn, dywedodd rhai o'r Aelodau fod yr wybodaeth am y gyllideb yn rhy gymhleth, a bod angen mwy o gefnogaeth er mwyn sicrhau eu bod yn deall yr wybodaeth ariannol yn ddigon da er mwyn gwneud penderfyniadau effeithiol.

39 Ni adroddir unrhyw ddangosyddion perfformiad wrth fonitro cyllidebau, ac ni chaiff adroddiadau ar berfformiad eu derbyn ochr yn ochr ag adroddiadau monitro cyllidebau ariannol, fel bo modd dadansoddi'r 'gwasanaeth cyfan'. Nid oes cysylltiadau clir wedi'u creu felly rhwng gwybodaeth ariannol a gwybodaeth am berfformiad, ee, effaith perfformiad gwasanaethau ar berfformiad ariannol ac fel arall.

40 Mae'r Cyngor mewn sefyllfa gref o ran cronfeydd wrth gefn 'defnyddadwy' ac wedi cynyddu'r rhain yn ystod y blynyddoedd diwethaf fel eu bod yn cynnwys oddeutu £123 miliwn ar ddiwedd 2014-15. Nid oes gan y Cyngor bolisi ar gyfer cronfeydd wrth gefn, ond mae ganddo bolisi i gadw balans Cronfa'r Cyngor oddi mewn i dri y cant o'i wariant refeniw net, ac mae'n llwyddo yn hynny o beth. Caiff cronfeydd wrth gefn eu hadolygu'n flynyddol wrth bennu cyllideb flynyddol y Cyngor. Fodd bynnag, dywedodd rhai Aelodau nad oedd digon o wybodaeth am gronfeydd wrth gefn na'r penderfyniadau ynghylch y defnydd ohonynt. Fodd bynnag, ers ein hadolygiad mae aelodau o'r TRhC wedi rhoi cyflwyniad i rai o'r aelodau ar y cronfeydd wrth gefn.

41 Nid oes gan y Cyngor bolisi ffurfiol ar gyfer cynhyrchu incwm/codi tâl ar wahân i bolisi y bydd yr holl ffioedd a'r taliadau'n codi bob blwyddyn i gyd-fynd â chwyddiant o leiaf, oni cheir achos busnes fel arall. Mae'r Cyngor yn adolygu ei bolisi yn y maes hwn, ac argymhellwyd yn ein Hadroddiad Asesu Ariannol 2014-15 y dylid cwblhau'r gwaith er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn cyfrannu at y penderfyniadau a wneir i ymdrin â phwysau ar gyllid dros y blynyddoedd nesaf. Fodd bynnag, mae'r adolygiad cynhyrchu incwm/codi tâl yn dal heb ei gwblhau.

## Mae gwendidau wrth reoli grantiau'n parhau i fod yn destun pryder

42 Mae'r Cyngor yn rheoli llawer o gynlluniau/brosiectau y mae wedi llwyddo i ennill cyllid grant ar eu cyfer. Yn 2013-14, derbyniwyd dros £350 miliwn o gyllid grant ar gyfer oddeutu 170 o gynlluniau. Mae hi felly'n bwysig bod gan y Cyngor systemau a rheolaethau cadarn i reoli grantiau, gan gynnwys Pwyllgor Archwilio rhagweithiol sy'n dwyn swyddogion i gyfrif, er mwyn sicrhau bod arian yn cael ei wario mewn modd priodol ac effeithlon, a chydymffurfio ag amodau grant perthnasol. Canlyniadau posibl peidio gwneud hynny fyddai colli cyllid grant, neu fod y darparwyr grant yn hawlio'r cyllid hwnnw'n ôl, herio gan bartïon allan, a'r cyhoeddusrwydd gwael cysylltiedig.

43 Ers sawl blwyddyn, rydym wedi adrodd gwendidau ym mhrosesau rheoli grantiau'r Cyngor yn rhan o'n gwaith archwilio ariannol. Mae'r Adran Archwilio Mewnol hefyd wedi adrodd problemau tebyg yn gysylltiedig â rheoli grantiau yn ei raglen waith. Mae'r Cyngor wedi dechrau datrys y gwendidau hyn, ond mae angen iddo ymdrin â'r gwendidau sy'n weddill fel mater o flaenoriaeth.

## Ni chedwir at drefniadau caffael bob amser

44 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi adrodd ar nifer o wendidau wrth gaffael. Mae rhai o'r rhain yn gysylltiedig â'r materion rheoli grant a nodir uchod, ond nid yw gwendidau wrth gaffael wedi'u cyfyngu i grantiau yn unig. O'r gwaith hwn, canfuom y problemau canlynol:

a diffyg cydymffurfio â rheolau caffael, gan gynnwys gweithrediadau tendr sengl a'r angen am gymeradwyaeth ôl-weithredol mewn rhai achosion;

b nid chedwir unrhyw restr o weithrediadau tendr sengl nac o gymeradwyaethau ôl-weithredol ac ni adroddir ynghylch hynny wrth y Pwyllgor Archwilio;

c nid oes unrhyw Gofrestr Tendrau i gofnodi canlyniadau tendrau, hy, pwy a gyflwynodd gais a phwy fu'n llwyddiannus, nac ychwaith unrhyw grynodeb o'r tendr gan olygu ei bod hi'n anodd dadansoddi tueddiadau a chyfraddau llwyddo – mae hyn yn groes i arfer da;

ch nid oes unrhyw Gofrestr Contractau gyflawn i gofnodi'r holl gontractau a ddelir gan y Cyngor a manylion y contractau hynny, ee, natur, hyd y contract, dyddiad diweddu ac ati; ac

d mae'r trefniadau ar gyfer defnyddio contractau fframwaith y Cyngor yn amrywio, gyda rhai'n defnyddio fframweithiau bach, rhai'n defnyddio contractau yn ôl y gofyn ac ati, ac mae angen eglurder ynghylch hyn.

## Cynnig ar gyfer Gwella

C2 Y Defnydd o Adnoddau - Cyllid:

- Datblygu cysylltiadau mwy eglur rhwng y cynllun ariannol tymor canolig (CATC) a chynlluniau gwella'r Cyngor, gan fanylu ar effaith cyfyngiadau ariannol ar ganlyniadau i ddinasyddion.
- Datblygu a defnyddio meincnodau a Dangosyddion Gwerth am Arian wrth bennu cyllidebau, er mwyn creu sail well wrth wneud penderfyniadau, a chreu cyfleoedd pellach i drafod a herio costau presennol, gan ganfod arbedion effeithlonrwydd pellach o bosib.
- Gwella adroddiadau ariannol drwy:
  - datblygu cysylltiadau cliriach rhwng perfformiad ariannol a pherfformiad gwasanaethau, gan gynnwys llunio cyd-adroddiadau ar arian a pherfformiad i'r Aelodau;
  - monitro ac adrodd ar dargedau arbed unigol er mwyn sicrhau bod meysydd lle cyflawnir yn well neu'n waelach na'r disgwyl yn cael eu nodi'n glir, fel bo modd herio'n effeithiol, cymryd camau unioni a rhannu arfer da;
  - darparu gwybodaeth ddigonol am gronfeydd wrth gefn a thrywydd archwilio clir ar gyfer penderfyniadau ynghylch y cronfeydd hynny; a
  - chysylltu â'r Aelodau er mwyn sicrhau bod gwybodaeth ariannol yn cyd-fynd â'u hanghenion.
- Atgyfnerthu trefniadau caffael drwy:
  - adolygu'r rhesymau dros beidio cydymffurfio â gweithdrefnau a chymryd camau unioni er mwyn atal hynny rhag digwydd eto;
  - llunio a chadw Cofrestr Tendrau a Chofrestr Contractau;
  - llunio a chadw rhestr o weithrediadau tendr sengl, ac adrodd yn rheolaidd arni wrth y Pwyllgor Archwilio; ac
  - adolygu'r gwahaniaethau yn y defnydd o gontractau fframwaith y Cyngor er mwyn ysgogi proses fwy cyson.

## Mae dull y Cyngor o reoli pobl yn gweithio’n dda, ac mae’n mynd i’r afael â rhai o’r prif feysydd y mae angen eu hatgyfnerthu, fel cynlluniau strategol y gweithlu

### Mae Grŵp Strategaeth Pobl y Cyngor wedi datblygu Strategaeth Pobl glir, ond nid yw hon wedi’i hymwreiddio’n effeithiol ac mae cynllun busnes yr is-adran Rheoli Pobl a Pherfformiad yn wan

45 Mae Grŵp Strategaeth Pobl (GSP) y Cyngor yn effeithiol ac wedi bod yn gyfrifol am ddatblygu Strategaeth Pobl newydd y Cyngor sy’n cyfleu dwy weledigaeth glir. Mae’r naill yn amlinellu sut mae’r Cyngor am reoli a thrin pobl a’r llall yn cyfleu uchelgais y Cyngor o ran sut mae’n gobeithio y bydd y gweithlu’n teimlo yn sgil hynny. Fodd bynnag, nid yw’r strategaeth wedi’i hymwreiddio yn niwylliant y sefydliad eto, gan nad oedd llawer o swyddogion yn gallu rhoi eglurhad clir o’r weledigaeth gyffredinol.

46 Ochr yn ochr â’r strategaeth, mae’r Cyngor wedi datblygu ystod o ddangosyddion y bydd yn eu defnyddio i asesu a yw’n gwneud cynnydd tuag at nodau’r Strategaeth Pobl. Fodd bynnag, mae sawl mesur yn rhy amwys, gan olygu ei bod yn anodd asesu uchelgais a chynnydd y Cyngor.

47 Mae’r cynllun busnes Rheoli Pobl a Pherfformiad (RhPPh) yn ddryslyd ac yn anodd ei ddarllen gan olygu ei bod yn anodd deall sut y bydd pum uned fusnes yr is-adran yn cydweithio, neu’n gweithio’n unigol, i gyflawni’r nodau strategol. Fel y mesurau sy’n cefnogi’r strategaeth, nid yw’r camau gweithredu sydd wedi’u cynnwys yn y cynllun yn benodol, yn fesuradwy nac wedi’u cyfyngu gan amser, gan olygu ei bod hi’n anodd dwyn rheolwyr i gyfrif. Fodd bynnag, mae’r Cyngor yn gweithio i greu cyfres o fetrigau y gellir eu defnyddio i fesur perfformiad yn well yn y dyfodol.

48 O bosib o ganlyniad i wendidau’r cynllun busnes RhPPh, mae’r unedau usnes Dysgu a Datblygu a Ffit i Weithio oddi mewn i’r Is-adran RhPPh wedi llunio’u strategaethau a’u cynlluniau gweithredu eu hunain. Fodd bynnag, mae’r rhain yn creu mwy o ddryswch eto.

### Mae’r Cyngor yn gweithredu mentrau’n llwyddiannus mewn sawl maes er mwyn cynyddu galluogrwydd pobl a chyflawni nodau Strategaeth Pobl y Cyngor

49 Mae gan y Cyngor amrywiaeth eang o bolisïau rheoli pobl sy’n hygyrch, o ansawdd da ac wedi’u hysgrifennu’n dda. Cefnogir y rhain gan ganllawiau clir i reolwyr.

50 Mae’r Cyngor wedi cael cryn lwyddiant wrth wella’i berfformiad o ran absenoldeb salwch. Canlyniad dull cydgysylltiedig rhwng RhPPh a’r pwyllgor craffu Polisi ac Adnoddau (PacA). Sefydlodd y pwyllgor PacA grŵp Gorchwyl a Gorffen, ac un o argymhellion y grŵp oedd sefydlu Tîm Presenoldeb dynodedig. Mae’r tîm hwn, ynghyd â chefnogaeth gadarn ac effeithiol gan F4W wedi helpu i wella lefelau salwch o 11.3 i 9.6 o ddiwrnodiau fesul swydd CALl dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

51 Mae uned busnes DaD wedi cwblhau llawer o waith effeithiol er mwyn datblygu gweithlu'r Cyngor, gan gynnwys ystod o raglenni rheoli a datblygu doniau. Fodd bynnag, gallai'r Cyngor fod yn methu cyfle o beidio defnyddio'r cyfleuster Dysgu Undebau Llafur.

52 Yn gysylltiedig â hyn, mae'r Cyngor wedi adolygu ei broses recriwtio ar gyfer uwch benodiadau, drwy gyflwyno proses drylwyr lle caiff ymgeiswyr eu hasesu yn erbyn y fframwaith cymhwysedd arwain newydd.

53 Mae proses arfarnu sefydledig ar waith, ac er mwyn annog defnydd ohoni mae'r Cyngor yn dweud iddo seilio'r broses arfarnu ar drafodaethau rheolaidd o ansawdd rhwng rheolwyr llinell a'u haelodau tîm. Fodd bynnag nid oes gan yr holl staff arfarniadau, ac mae rhai rheolwyr yn dal i weithredu model arfarnu ar y cyd nad yw'n cynrychioli arfer da.

54 Mae presenoldeb pob uned fusnes yng nghyfarfodydd y Tîm Rheoli Adrannol (TRhA) yn dangos cefnogaeth ac ymrwymiad yr Is-adran RhPPh tuag at yr adrannau, a hefyd yn ychwanegu gwerth drwy gynnig arbenigedd, gwybodaeth am berfformiad ac elfen o her.

55 Mae cydleoli'r Is-adran RhPPh yn esgor ar fanteision, gan gynnwys ymdeimlad cryfach o 'dîm' a chynyddu cyfathrebu a rhyngweithio rhwng aelodau RhPPh. Mae'r Adran Gyflogres hefyd wedi cael ei chydleoli ond yn dal i gael ei rheoli gan y gwasanaeth cyllid. Mae'r Is-adran RhPPh wedi bod yn cynllunio i ad-drefnu ers dwy flynedd o leiaf. Mae'r cynlluniau ad-drefnu'n cynnwys cyflwyno un man cyswllt ar gyfer ymholiadau Cefnogaeth Cyflogres AD drwy Ddesg Gymorth. Ni cheir sicrwydd ar hyn o bryd ynghylch pryd fydd yr ymarfer ad-drefnu'n cael ei gwblhau, yn enwedig i rai ar gontractau dros dro. Mae hynny'n destun rhwystredigaeth i swyddogion, ac yn ffactor hollbwysig er mwyn sicrhau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gwasanaeth yn y dyfodol.

## Gan gydnabod yr angen i atgyfnerthu cynlluniau'r gweithlu, mae'r Cyngor wedi datblygu pecyn cymorth i gasglu gwybodaeth gyson am y gweithlu

56 Mae'r Cyngor wedi cydnabod na fu cynllunio'r gweithlu ymhlith ei gryfderau ers peth amser, ac wedi cynnwys risg cynllunio'r gweithlu ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, yn rhannol oherwydd cylchoedd dilynol o brosesau diswyddo. O ganlyniad i hyn, mae'r Is-adran RhPPh wedi datblygu Pecyn Cymorth Cynllunio'r Gweithlu i Reolwyr. Â phroses flynyddol yn gysylltiedig â datblygu cynlluniau busnes 2016-17, bydd cynlluniau gweithlu'r gwasanaethau'n cael eu cydgasglu i greu cynllun gweithlu corfforaethol erbyn mis Gorffennaf 2016.

57 Mae'r Cyngor wedi cynnal tri chynllun diswyddo ac erbyn hyn ar ei bedwerydd. Mae'r pedwerydd cynllun hwn yn seiliedig ar gynllun tair blynedd yn hytrach na chynllun blwyddyn o hyd; felly mae'n cyd-fynd yn well â chynlluniau gweithlu tymor hwy.

## Mae gan y Cyngor nifer o systemau gwybodaeth i gefnogi'r Is-adran RhPPh; fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn sicrhau'r gwerth gorau, a gallai rhannu gwybodaeth am gyflogeion rhwng systemau achosi risg i'r Cyngor

58 Mae system gyflogres AD Northgate Resoucre Link wedi bod ar waith ers un ar ddeg o flynyddoedd ac wedi cael ei diweddaru'n rheolaidd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol a gwella swyddogaethau'r system. Fodd bynnag, nid yw'r system wedi cael ei datblygu mor effeithiol ag y gallai fod wedi bod. Er enghraifft, ni chaiff ei defnyddio ar gyfer y broses arfarnu, i gofnodi datblygiad proffesiynol parhaus, nac i reoli doniau. O ganlyniad i hyn, mae'r Cyngor yn gwario mwy o amser yn cyflawni'r tasgau hyn yn ymarferol.

59 Prin yw'r defnydd ymhlith cyfarwyddwyr, penaethiaid gwasanaeth a staff AD o'r system adrodd Insight. Gofynnwyd i swyddogion AD ddarparu manylebau ar gyfer adroddiadau, ond ni wnaethant gymryd rhan yn y broses hon, gan gynyddu'r canfyddiad a fynegir yn gyffredinol ei bod hi'n anodd cael adroddiadau o systemau gwybodaeth AD.

60 Defnyddir system rheoli dogfennau Information@Work hefyd i gadw gwybodaeth benodol yn seiliedig ar bersonél ar gyfer cyflogeion. Mae'r cofnodion yn Information@Work yn cyflenwi'r wybodaeth a gedwir yn y Cyswllt Adnodd gan olygu bod cofnodion personél yn cael eu cynnwys mewn dwy system electronig ar wahân nad ydynt wedi'u hintegreiddio. Deellir bod gan y Cyngor hefyd ffeiliau achos papur, sy'n gwanio dull hen ffasiwn y RhPPh o gadw cofnodion ymhellach, ac mae hynny yn gyfunol yn achosi risg i'r Cyngor.

## Mae'r trefniadau ar gyfer cyfathrebu oddi mewn i RhPPh a chyda'r Cyngor ehangach yn gymhleth, ac nid ydynt yn effeithiol bob tro

61 Er bod cyfarfodydd ar gyfer pob is-dîm, nid yw'r is-adran RhPPh yn cyfarfod yn ei chyfanrwydd. Byddai cyfarfod fel grŵp o gymorth i rannu negeseuon ar lefel strategol, gan ei bod hi'n amlwg yn ôl gwybodaeth y swyddogion ar hyn o bryd fod yr adborth hwn yn wannach na'r adborth gweithredol.

62 Mae'r rheolwr Cyfathrebu'n cydweithio'n agos â'r is-adran RhPPh i hyrwyddo cyfathrebu ac ymgysylltu â staff ar draws y Cyngor cyfan. Fodd bynnag, er ei bod hi'n glir bod y Cyngor yn rhoi pwys mawr ar reoli pobl yn dda i gynhyrchu gweithlu cyfranogol a deallus, y mae'n eu llethu â gormod o negeseuon, ac yn cyfleu'r negeseuon hynny drwy ormod o wahanol gyfryngau. Oherwydd hyn, gallai negeseuon allweddol gael eu colli, a gallai'r gweithlu fod yn ddall i fentrau a newidiadau ym maes rheoli pobl.

### Cynnig ar gyfer Gwella

C3 Y Defnydd o Adnoddau - Pobl:

- Cwblhau a gweithredu'r strwythur diwygiedig ar gyfer yr Is-adran RhPPh.
- Sicrhau bod gan bob aelod o staff arfarniad unigol o berfformiad bob blwyddyn.
- Symleiddio mecanweithiau cyfathrebu oddi mewn i'r RhPPh, a'r rhai a ddefnyddir ar gyfer cyfathrebu â'r gweithlu ehangach ynghylch mentrau rheoli pobl.
- Adolygu'r cyfarpar a'r systemau TGCh a ddefnyddir oddi mewn i'r RhPPh ac ysgogi datblygiadau er mwyn cyflawni'r canlynol o leiaf:
  - cofnod personél unigol;
  - hunanwasanaeth effeithiol;
  - gweithio ystwyth ar gyfer swyddogion RhPPh;
  - cyfathrebu â Grŵp y Strategaeth TGCh ynghylch gofyniad busnes clir ar gyfer TGCh; a
  - defnydd mwy effeithiol o'r system adrodd Insight.

## Mae sawl ffactor yn amharu ar allu'r Cyngor i reoli ei sylfaen o asedau'n effeithiol ar hyn o bryd

63 Mae gan y Cyngor Gynllun Rheoli Asedau Corfforaethol (CRhAC) sy'n trafod y cyfnod 2013-2016. Mae'r cynllun hwn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd i gynnwys 2016-2019 cyn ymgynghori'n ehangach arno. Mae Cynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaethau (CRhAG) yn helpu i gyfrannu at y CRhAC ond mae ansawdd y rhain yn amrywio a'r cysylltiadau rhwng y CRhAG a'r CRhAC yn wan. Cyflwynir mân ddiweddariadau blynyddol i'r CRhAC ond ni chyflwynir adroddiadau clir am y rhain wrth yr Aelodau.

64 Prin yw'r wybodaeth a gedwir gan y Cyngor ynghylch cyflwr adeiladau. Pennir categori cyffredinol ar gyfer cyflwr yr ased yn y data arolwg cyflwr (sef gradd A - D), ond nid yw'r data'n rhoi amcangyfrif o'r gost o wella'r eiddo hyd at safon dderbyniol. Mae hyn yn amharu ar y gallu i wneud penderfyniadau effeithiol.

65 Gan gydnabod yr angen i leihau'r gofod swyddfa a ddefnyddir ganddo, mae'r Cyngor wedi llunio Strategaeth Swyddfeydd ar gyfer 2014-17. Nod y strategaeth yw lleihau nifer y swyddfeydd ar brydles ac unrhyw swyddfeydd eilaidd, gan olygu bod gan y Cyngor bortffolio llai o eiddo sydd mewn cyflwr da ac yn addas i'r diben. Mae'r Cyngor wedi sicrhau gostyngiad o fwy na 11 y cant (34,462m2 i 30,522m2), yn arwynebedd llawr ei swyddfeydd rhwng 2012-13 a 2014-15, ynghyd â gostyngiadau pellach yn ystod y flwyddyn gyfredol. Drwy leihau gofod swyddfa, dywed y Cyngor ei fod wedi arbed oddeutu £225,000 mewn costau refeniw a bod hynny hefyd wedi arwain at bron i £450,000 o dderbyniadau cyfalaf. Mae'r ymarfer rhesymoli hwn hefyd yn esgor ar fanteision ychwanegol yn sgil cydleoli staff, gan helpu i effeithlonni'r modd y bydd pobl yn gweithio.

66 Mae gan y Cyngor Bolisi Gweithio Hyblyg (a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2010), sy'n cydnabod y gall gweithio yn y modd hwn fod o gymorth i leihau anghenion y Cyngor o ran swyddfeydd. Er nad yw seilwaith TGCh wedi gallu cefnogi'r dull modern hwn o weithio mewn modd effeithiol, mae prosiect ar y gweill ar hyn o bryd i weithredu Seilwaith Bwrdd Gwaith Rhithiol. Mae peilot llwyddiannus eisoes wedi cael ei gynnal gyda'r Tîm Troseddau Ieuenctid sydd wedi'i leoli yn Llanelli.

67 Er bod marchnad eiddo wan wedi arafu'r gwerthu, bu modd i'r Cyngor ragori'n sylweddol ar ei darged ariannol ar gyfer gwaredu asedau, gan sicrhau £6.7 miliwn o dderbyniadau cyfalaf nad oeddent yn gysylltiedig â thai yn ystod 2014-15 (yn erbyn targed o £2.28 miliwn). Deilliai hyn o werthu tir yn Natblygiad Gorllewin Cross Hands. Er mwyn cynllunio'n well ar gyfer y dyfodol, mae'r Cyngor wedi llunio strategaeth bum mlynedd o hyd ar gyfer derbyniadau cyfalaf.

68 Mae'r Cyngor yn ystyried bod cydweithio ar asedau gyda phartneriaid eraill o'r sector cyhoeddus yn faes lle gellir cyflwyno gwelliannau pellach. Mae'r BGLl yn ystyried sefyllfaoedd lle gall partneriaid rannu strategaethau eiddo a hyrwyddo gwaith i bennu cyfleoedd i gydweithio ym maes eiddo. Y mae cyfleoedd i rannu adeiladau eisoes ymhlith y manteision sy'n gysylltiedig â hyn. Fodd bynnag, nid yw'r holl bartneriaid yn mynychu'r cyfarfodydd hyn yn rheolaidd, gan gyfyngu ar eu heffeithiolrwydd.

69 Mae'r Cyngor hefyd yn mynd ati i ddatblygu polisi i Drosglwyddo Asedau Cymunedol. I gefnogi'r broses hon, mae'r Cyngor wedi sefydlu Tîm Trosglwyddo Asedau sy'n cynnwys cynrychiolwyr o wahanol feysydd gwasanaeth, ac sy'n canolbwyntio ar gefnogi grwpiau cymunedol drwy'r broses o drosglwyddo asedau. Y dyddiad cau ar gyfer mynegi diddordeb ynghylch asedau chwaraeon yw mis Mawrth 2016, ac fe fynegwyd diddordeb cadarnhaol gan Gynghorau Cymuned, Cynghorau Tref a chlybiau chwaraeon. Ceir eisoes sawl enghraifft o asedau a drosglwyddwyd yn llwyddiannus, ond mae Cyngor yn dal ymhell o fodloni'r targedau arbed a nodwyd yn ei strategaeth gyllidebol.

70 Rhoddir sylw hefyd i asedau eraill, megis fflyd y Cyngor o gerbydau. Yn sgil y prosiect fflyd, mae cyfanswm y cerbydau wedi gostwng a rowndiau casglu ysbwriel wedi'u rhesymoli. Mae'r mentrau hyn wedi creu oddeutu £750,000 o arbedion.

## Cynnig ar gyfer Gwella

| | |
|---|---|
| C4 | Defnydd o Adnoddau - Asedau:<br>• Atgyfnerthu'r cynlluniau rheoli asedau ar lefel gwasanaeth, a gwella'r cysylltiadau rhwng y cynlluniau hyn â'r cynllun rheoli asedau corfforaethol trosfwaol.<br>• Rhoi adroddiadau i'r Aelodau bob chwarter ar gynnydd yn erbyn y cynllun rheoli asedau corfforaethol a'r strategaeth rheoli swyddfeydd. |

## Er iddo fod yn araf wrth ymateb i'r diffygion sylweddol yn ei drefniadau TGCh, mae'r Cyngor bellach yn cymryd camau er mwyn gwella

71 Gan gydnabod bod nifer o ddiffygion sylweddol yng ngwasanaeth TGCh y Cyngor, gofynnodd y Prif Weithredwr am gael cynnal adolygiad o'r modd y cyflenwir y gwasanaeth hwnnw ym mis Rhagfyr 2014. Cynhaliwyd yr adolygiad lefel uchel cychwynnol hwn gan y Pennaeth TG a Gwasanaethau Cymorth Canolog o Gyngor Sir Benfro. Canlyniad yr adolygiad oedd ffurfio partneriaeth strategol a gweithredol rhwng y ddau sefydliad. Mae'r Cyd-bennaeth TGCh bellach yn gyfrifol am lunio achos busnes o blaid neu yn erbyn ffurfio gwasanaeth TGCh cyfun. Gan gydnabod pwysigrwydd y swyddogaeth TGCh, mae trefniadau newydd y Cyngor yn cynnwys adroddiadau uniongyrchol gan y Cyd-bennaeth TGCh i'r Prif Weithredwr, sy'n drefniant priodol.

72 Er mwyn darparu gwybodaeth ar gyfer yr achos busnes, mae'r Cyd-bennaeth TGCh wedi sefydlu pedair ffrwd waith, sef:

- a seilwaith y gweinydd a threfniadau adfer wedi trychineb;
- b rhwydweithiau llais a data;
- c mynediad at wasanaethau - gan gynnwys llwyfannau bwrdd gwaith a gweithio symudol/ystwyth; a
- ch chymwysiadau.

73 Mae'r ffrydiau gwaith yn gweithredu ar ffurf grwpiau gorchwyl a gorffen, ac wedi derbyn cyfarwyddyd i ystyried y canlynol:

- a cost model cyflenwi cyfredol fesul cyngor;
- b cost y naill fodel cyflenwi gwasanaeth a'r llall o'u gweithredu ar draws y ddau gyngor; a
- c chost model cyflenwi diwygiedig/wedi'i ail-ddylunio ar gyfer y ddau gyngor.

Bydd canlyniadau'r ffrydiau gwaith nid yn unig yn sail ar gyfer yr achos busnes, ond hefyd yn sail ar gyfer strategaeth ddigidol ddiwygiedig.

74 Gan nad yw'r ffrydiau gwaith ond newydd ddechrau eu gwaith, mae'n rhy fuan i werthuso cynnydd. Fodd bynnag, mae'n hollbwysig i'r Cyngor wneud cynnydd dros y 12 mis nesaf. Yn arbennig, mae angen iddo ail-feithrin ymddiriedaeth y sefydliad mewn TGCh a chreu gwasanaeth TGCh modern a all weithredu mewn modd effeithiol ac effeithlon. Dylai'r gwasanaeth hefyd helpu i hyrwyddo newid er mwyn creu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion, sy'n galluogi'r Cyngor i sicrhau canlyniadau o ansawdd gyda llai o adnoddau. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd, canlyniadau'r ffrydiau gwaith a datblygiad yr achos busnes.

## Bu trefniadau rheoli gwybodaeth y Cyngor yn llwyddiannus, ond y mae bellach yn wynebu heriau newydd wrth symud tuag at weithlu mwy symudol ac ystwyth

75 Comisiynwyd yr Archifau Cenedlaethol gan y Cyngor i ddarparu hyfforddiant i Berchnogion Asedau Gwybodaeth. Rhoddwyd yr hyfforddiant ym mis Mehefin 2015, ac yr oedd dros 50 o aelodau staff yn bresennol. Bwriedir cynnal dwy sesiwn arall. Mae'r Uwch Berchennog Gwybodaeth a Risg (UBGR) hefyd wedi derbyn hyfforddiant, ynghyd ag Aelodau eraill o'r tîm corfforaethol. Rhoddodd y cwrs ddarlun clir i'r swyddogion o gyfrifoldebau'r UBGR. Mae modiwl e-ddysgu hefyd ar gael o fewn y Cyngor, a ddefnyddir gan y staff i loywi eu gwybodaeth.

76 Mae gan y Cyngor gyfres o flaenoriaethau llywodraethu gwybodaeth cytunedig, sydd yn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data. Caiff y trefniadau llywodraethu eu hunain eu cyflenwi drwy'r Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth Corfforaethol a sefydlwyd yn 2012, ac a gadeirir gan yr UBGR. Mae'r Cyngor yn prosesu ystod eang o wybodaeth bersonol ac ariannol, ac mae ganddo fesurau rheoli priodol ar waith i ddarparu sicrwydd ynghylch diogelwch.

77 Cafwyd cynnydd o 25 y cant yn nifer y ceisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth ers 2012 o fewn y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi cynnal ei berfformiad wrth ymateb i geisiadau.

78 Mae'r cynllun ffeiliau corfforaethol yn parhau i gael ei ddatblygu, a gwelliannau'n cael eu cyflwyno i'r mesurau a weithredir er mwyn rheoli mynediad. Bellach, gweinyddwyr newydd sydd wedi'u lleoli mewn gwasanaethau, a chanddynt wybodaeth fanwl am eu gwasanaethau a'u staff, sydd yn gweithredu'r rheolaethau sy'n cyfyngu ar fynediad i'r rhai sydd ei angen yn unig. Gall gweinyddwyr gwasanaeth lleol hefyd reoli strwythur y cynllun ffeiliau yn eu maes, o dan y ddwy haen gyntaf, gan ddilyn y model a argymhellir yn genedlaethol. Y mae rheolaeth ar gyfrifon e-bost a chynnydd yn y defnydd o system rheoli dogfennau electronig Northgate, Information@Work, ymhlith y mentrau eraill. Wrth i'r Cyngor symud tuag at weithlu mwy symudol ac ystwyth, bydd yn wynebu'r her o sicrhau bod swyddogion yn gallu cyrchu'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt mewn modd diogel, ble bynnag y bônt yn gweithio. O ganlyniad i hyn, mae angen iddo ystyried a all ei gynllun ffeiliau cyfredol ddiwallu ei anghenion busnes yn y dyfodol.

79 Mae'r Cyngor yn bwriadu cyflwyno gwelliannau pellach i'r trefniadau llywodraethu. Yn benodol, mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i wella'r trefniadau i reoli risgiau'n gysylltiedig â gwybodaeth, cynyddu rheolaethau diogelwch ymhellach, ymateb i Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol newydd yr Undeb Ewropeaidd, a pharhau i reoli ei brotocolau rhannu gwybodaeth yn effeithiol.

## Cynnig ar gyfer Gwella

| | |
|---|---|
| C5 | Y Defnydd o Adnoddau - TGCh a Rheoli Gwybodaeth:<br>• Sicrhau bod ffrydiau gwaith TGCh yn datrys y diffyg cysylltiad honedig rhwng y gwasanaeth busnes a'r gwasanaeth TGCh ac yn rhoi ystyriaeth briodol i anghenion busnes. |

# Mae'r Cyngor wedi hen sefydlu dull effeithiol o weithio mewn partneriaeth

80 Mae'r Cyngor wedi hen sefydlu dull effeithiol o weithio mewn partneriaeth sydd yn gwella canlyniadau i'w ddinasyddion. Mae'r bartneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIPHDd) yn arbennig o gryf, a chydweithio wedi cael ei 'brif-ffrydio' i'r berthynas waith rhwng y ddau sefydliad, gyda nifer o swyddi wedi'u sefydlu ar y cyd.

81 Mae'r Cyngor wedi nodi sawl maes lle mae angen atgyfnerthu neu symleiddio'r trefniadau i gydweithio â BIPHDd, er mwyn rhwyddhau pethau. Er enghraifft, mae gan y ddau sefydliad bolisïau gwahanol arg yfer rheoli pobl, a dull gwahanol iawn o fesur perfformiad gwasanaethau. Mae'r Cyngor a BIPHDd yn gweithio ar agweddau mwy cymhleth ar waith partneriaeth fel strategaethau cyffredin, canolfan comisiynu ar y cyd a chyllidebau cyfun. Mae'r naill a'r llall yn cydnabod bod y rhain yn hollbwysig er mwyn ysgogi mwy o integreiddio ac effeithlonni a chanlyniadau gwell i ddinasyddion.

## Mae Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Gaerfyrddin wedi bod yn alluogydd effeithiol

82 Mae Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLl) Sir Gaerfyrddin wedi cynnwys nodau clir yn ei Gynllun Integredig Sengl (CIS). Mae'r BGLl wedi gwneud defnydd effeithiol o ffrydiau gwaith (grwpiau gorchwyl a gorffen) i ystyried cyfleoedd i gydweithio ar draws y sector cyhoeddus fydd yn arwain at arbedion effeithlonrwydd a chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yn well. Ceir sawl enghraifft dda sy'n amlygu effeithiolrwydd gwaith partneriaeth sy'n canolbwyntio ar sicrhau canlyniadau. Nodir dwy enghraifft isod:

a Mae Canolfan Wybodaeth Un Stop yn Llanelli yn darparu cyngor a gwybodaeth wyneb yn wyneb ar ystod o faterion, gan gynnwys 18 o wahanol sefydliadau partner. Ymhlith y gwasanaethau, ceir cyfeirio i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, rheolaeth ariannol a mynediad digidol am ddim. Mae cynlluniau ar waith i ehangu'r defnydd o'r ganolfan i gynnwys gwasanaethau eraill fel ymholiadau digartrefedd a thai, ac i agor canolfannau pellach yng Nghaerfyrddin a Rhydaman.

b Mae sefydliadau partner wedi datblygu'r sylfaen adeiladu yn Sir Gaerfyrddin i greu Adeiladu Sir Gâr Gyda'n Gilydd (ASGGG). Mae ASGGG wedi'i ffurfio o dri phrif bartner, y Cyngor, Coleg Sir Gâr a Carmarthenshire Construction Training Association Limited (CCTAL). Dechreuwyd y bartneriaeth gan CCTAL i ddechrau, ond mae'r tri sefydliad wedi cydweithio i ddatblygu capasiti medrus a galluog ar gyfer adeiladu yn yr ardal. Mae'r bartneriaeth wedi agor llwybrau i gyflogaeth ac wedi helpu'r diwydiant adeiladu i dyfu drwy'r dirwasgiad, drwy dderbyn myfyrwyr sy'n astudio yng Ngholeg Sir Gâr fel prentisiaid i gefnogi gwaith i wella stoc tai'r Cyngor.

83 Serch hynny, ceir enghreifftiau lle bo'r un gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan fwy nag un partner, yn enwedig yn y trydydd sector. Mae'r Cyngor yn cydnabod hyn ac ar hyn o bryd yn mapio holl ymglymiad y trydydd sector, grantiau a ddyfernir a chomisiynau er mwyn pennu themâu allweddol, creu cysylltiadau rhwng darparwyr a lleihau gwaith sy'n cael i ail-wneud.

84 Cydnabu'r BGLl nad oedd ei drefniadau'n ddigon effeithiol mewn rhai meysydd. Er mwyn helpu i nodi'r meysydd hyn, y mae wedi comisiynu adolygiad manwl o'r holl bartneriaethau strategol, trefniadau cyfredol y partneriaethau a'r dulliau cyfredol o weithio. Bydd hyn o gymorth i sicrhau bod y BGLl yn parhau i fod yn addas i'r diben, ac i ychwanegu gwerth at waith yr aelodau unigol. Mae amseriad yr adolygiad hwn yn arbennig o ddefnyddiol wrth baratoi i newid y BGLl yn Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Un o'r ffactorau a nodwyd i ddynodi llwyddiant oedd yr angen i sicrhau'r lefel gywir o bresenoldeb yn y BGLl, yr angen i'r rhai a oedd yn bresennol fod â'r lefel gywir o awdurdod i wneud penderfyniadau, a'r gallu i ymrwymo (neu beidio) eu sefydliadau i brosiectau.

85 Gellid gwella'r trefniadau i'r BGLl gyfathrebu'n allanol, gan wneud defnydd mwy effeithiol o'r cyfryngau cymdeithasol a chanolbwyntio mwy ar gyfathrebu â dinasyddion Sir Gaerfyrddin ynghylch bodolaeth, diben a chyflawniadau'r BGLl.

86 Mae'r BGLl wedi ymroi i gysylltu â chynghorau cyfagos er mwyn cydweithio. Ni chafwyd ymateb cynhyrchiol wrth gysylltu â'r cynghorau hynny i ddechrau. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi sefydlu rhwydwaith cydgysylltwyr BGLl ar y cyd â Chynghorau Sir Benfro a Cheredigion er mwyn rhannu'r hyn a ddysgir, a datblygu fframwaith cyffredin ar gyfer yr Asesiad o Anghenion sydd ar ddod, sy'n ofynnol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

# Mae gan y Cyngor fframwaith da i reoli gwelliant, ond y mae diffyg ansawdd a gweithrediad cyson y fframwaith mewn rhai adrannau'n creu diffyg atebolrwydd

## Mae'r gwaith o gynllunio gwelliannau wedi'i reoli'n dda, ond gellid atgyfnerthu'r cysylltiadau â chynlluniau ariannol

87 Mae ethos cryf o welliant parhaus yn llifo drwy bopeth a wna'r Cyngor. Cefnogir y ffocws ar welliant gan fframwaith clir o gynlluniau a strategaethau sydd wedi'u halinio'n dda. Mae'r rhain yn trosi canlyniadau lefel uchel y mae'r Cyngor wedi cytuno arnynt â phartneriaid yn flaenoriaethau i'w gweithredu. Mae'r canlyniadau hyn yn sail ar gyfer yr holl waith monitro ac adrodd ar berfformiad, ac mae pob canlyniad wedi'i godio â lliw er rhwyddineb mewn adroddiadau. Bydd gwasanaethau'n mapio eu cyfraniad at y canlyniadau hyn yn eu cynlluniau busnes, gan godi ymwybyddiaeth y staff ynglŷn â'u rhan yn y gwaith o ysgogi gwelliant.

88 Mae'r Cyngor yn casglu gwybodaeth o ystod eang o ffynonellau er mwyn pennu sut ac ymhle i gyfeirio ei ymdrechion i wella. Mae hyn yn cynnwys adborth gan ddinasyddion, safbwyntiau rheoleiddwyr, adolygiadau gan gymheiriaid, polisi cenedlaethol ac ystod eang o wybodaeth am berfformiad. I gyflenwi hyn, ceir dull aeddfed o hunanwerthuso sy'n datblygu i fod yn fwy cadarn, agored a thryloyw.

89 Mae'r adroddiad a'r cynllun gwella blynyddol (ACGB) cyfun yn creu sail gadarn ar gyfer cynllunio gwelliannau. Mae'n galluogi'r Cyngor i adolygu ei berfformiad yn y gorffennol a chynllunio ei gamau nesaf ar yr un pryd mewn un ddogfen gyhoeddus. Mae'r ACGB yn gynhwysfawr iawn, ac yn cynnwys gwybodaeth o ystod eang o ffynonellau a ddefnyddir gan y Cyngor i werthuso a herio ei gynnydd. Defnyddir yr wybodaeth hon wedyn i bennu'r hyn y mae angen i'r Cyngor ganolbwyntio arno yn y dyfodol, gan gynnwys camau a thargedau manwl. Ceir cysylltiadau eglur â chynlluniau busnes gwasanaethau, er nad yw'r cysylltiadau rhwng cynlluniau ariannol a chynlluniau gwella mor gryf.

90 Atgyfnerthwyd arweinyddiaeth wleidyddol yr agenda ar gyfer gwella. Mae Aelodau'r Bwrdd Gweithredol bellach yn cymryd mwy o gyfrifoldeb dros berfformiad eu portffolios, er enghraifft, drwy gyflwyno eu hadroddiadau eu hunain, drwy ateb cwestiynau am berfformiad, drwy herio cynlluniau busnes a thrwy fod yn bresennol mewn pwyllgorau craffu. Mae defnyddio grwpiau Gorchwyl a Gorffen o gymorth i ysgogi gwelliant mewn sawl maes, fel defnyddio cartrefi gwag o'r newydd a mynd i'r afael â thlodi.

91 Er bod y Cyngor yn dwyn penaethiaid gwasanaeth i gyfrif yn rheolaidd am berfformiad, byddai ychwanegu adolygiad trawsadrannol o berfformiad yn ychwanegu at lefel yr her ac yn galluogi'r Cyngor i gael dealltwriaeth well ynghylch sut mae gweithgarwch y un gwasanaeth yn effeithio ar wasanaethau eraill.

92 Mae'r Cyngor yn arddangos penderfyniad i fynd i'r afael â'r prif heriau er mwyn sicrhau'r canlyniadau gwell a ddymunir ganddo i bobl leol. Mae hyn yn wir hyd yn oed mewn amgylchiadau lle mae ffactorau sydd y tu hwnt i'w reolaeth i raddau helaeth yn cyfyngu ar ei allu i ddylanwadu; er enghraifft, drwy ddatblygu strategaeth uchelgeisiol i gynyddu'r cyflenwad o gartrefi fforddiadwy a chymryd camau pendant a chydgysylltiedig i fynd i'r afael â thlodi'n fwy effeithiol.

93 Mae gan y Cyngor hanes da o reoli ei raglen wella'n llwyddiannus, ac mae hyn hefyd yn amlwg yn y flwyddyn gyfredol. Ar hyn o bryd, mae 93 y cant o'r 167 o gamau gwella yn yr ACGB a amserlennwyd i'w cwblhau yn ystod 2015-16 ar y trywydd iawn, ynghyd â 72 y cant o fesurau perfformiad. O edrych yn ehangach, mae 94 y cant o'r eitemau cyflawnadwy ym mlwyddyn 2 y Cytundeb Canlyniadau hefyd yn unol â'r targed.

## Mae gan y Cyngor fframwaith da i reoli gwelliant, ond y mae diffyg ansawdd a gweithrediad cyson y fframwaith mewn rhai adrannau'n creu diffyg atebolrwydd

94 Mae fframwaith cydlynol ar waith i reoli perfformiad. Defnyddir diagramau ar ffurf 'teisen briodas' haenog i ddangos hyn yn nogfennau allweddol y Cyngor. Mae'r diagram yn gosod blaenoriaethau'r Cyngor ar ffurf rhaeadr drwy hierarchaeth o gynlluniau a strategaethau, o'r canlyniadau lefel uchel y cytunwyd arnynt â phartneriaid hyd at gynlluniau ac amcanion i unigolion.

95 Cefnogir y fframwaith hwn gan system electronig gynhwysfawr sefydledig sy'n casglu ac adrodd gwybodaeth am berfformiad (PIMS), ac sy'n cynnig sail gadarn wrth wneud penderfyniadau. Defnyddir PIMS i gofnodi symiau helaeth o ddata perfformiad a llunio adroddiadau i Aelodau ac uwch reolwyr. Mae mesurau perfformiad a chamau gweithredu cynlluniau busnes gwasanaethau wedi'u cynnwys yn PIMS ac yn cael eu diweddaru bob chwarter. Gall pob aelod gyrchu PIMS, ac mae Aelodau'r Bwrdd Gweithredol wedi derbyn hyfforddiant llawn ar sut i'w defnyddio, er nad yw pob un ohonynt yn defnyddio'r system.

96 Mae gwybodaeth am berfformiad ar gael yn eang. Adroddir am berfformiad yn rheolaidd wrth y TRhC, yn chwarterol wrth y Bwrdd Gweithredol, a phob chwe mis wrth bwyllgorau craffu. Cyflwynir hefyd adolygiad blynyddol o berfformiad i'r Cyngor Llawn. Caiff gwybodaeth fanwl am berfformiad hefyd ei hadrodd yn flynyddol yn yr ACGB. Ceir crynodeb i gyd-fynd â phob adroddiad, sy'n egluro unrhyw amrywio rhwng targedau a chanlyniadau, ac yn cynnwys sylwadau ar unrhyw feysydd lle cafwyd tangyflawni.

97 Gan ymateb i bryderon yr Aelodau ynghylch natur gymhleth yr wybodaeth sy'n cael ei hadrodd, mae'r Cyngor newydd gyflwyno arddull dangosfwrdd syml ar gyfer adroddiadau pob portffolio, ac yn cynyddu'r defnydd o adroddiadau ar eithriadau. Mae Aelodau Gweithredol hefyd wedi derbyn dyfeisiau llechen cynnig ffordd fwy effeithiol o arddangos tueddiadau ym mherfformiad pob gwasanaeth, ond sy'n galluogi'r Aelodau i stilio am fanylion fel bo'r angen. Mae hyn yn helpu i gynyddu ymwybyddiaeth yr Aelodau o berfformiad gwasanaethau ac yn atgyfnerthu eu gallu i herio perfformiad. Fodd bynnag, waeth pa mor dda yw'r system PIMS, gall mynychder amrywiol y diweddariadau gan wasanaethau, ynghyd â rhai bylchau yn yr wybodaeth a gyflwynir, leihau effeithiolrwydd y dull hwn o herio.

98 Mae perthynas gynhyrchiol rhwng y Bwrdd Gweithredol a'r pwyllgorau craffu'n galluogi grwpiau Gorchwyl a Gorffen i gynnig argymhellion i'r Bwrdd Gweithredol mewn sawl maes, megis diwygio lles, defnyddio cartrefi gwag o'r newydd a mynd i'r afael â thlodi. Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod lle i atgyfnerthu swyddogaeth pwyllgorau craffu ymhellach o ran rheoli perfformiad, ac yn gweithio i'r perwyl hwnnw.

99 Yn raddol, mae'r Cyngor yn lleihau ei ddibyniaeth ar ddangosyddion perfformiad, camau a gwblhawyd a mesurau cynnyrch er mwyn monitro ei gynnydd. Mae'r dull meddwl mewn systemau a ddefnyddir yn y rhaglen Trawsnewid, Arloesi a Newid yn codi ymwybyddiaeth ynghylch gwerth mesurau sy'n seiliedig ar ganlyniadau yn enwedig o ran datblygu gwasanaeth ar y lefel gywir i gwsmeriaid. Mae rhai gwasanaethau'n adolygu eu dibyniaeth ar ddangosyddion perfformiad, gan ganolbwyntio'n unig ar y rhai sydd yn fwyaf defnyddiol iddynt, tra bo eraill yn datblygu eu cyfres eu hunain o ddangosyddion, gan gyflwyno mesurau canlyniad sy'n seiliedig ar anghenion cwsmeriaid i ddisodli'r mesurau mewnbwn/allbwn traddodiadol. Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da mewn rhai meysydd yn hyn o beth, er enghraifft yn y gyfarwyddiaeth Cymunedau a'r gyfarwyddiaeth Addysg. Fodd bynnag, nid oes unrhyw fecanweithiau corfforaethol effeithiol i rannu a dysgu o bocedi o arfer da wrth iddynt ddod i'r amlwg. Mae'r cyfleoedd dysgu sydd yn bodoli i'w cael ar lefel penaethiaid gwasanaeth gan amlaf, a thrwy fforymau staff gweithredol.

100 Mae diwylliant perfformiad yn tyfu, ond mae cyflymder y newid yn amrywio ar draws y Cyngor. Nid yw'r Cyngor yn gwneud defnydd cyson o'r data helaeth ar berfformiad y mae'n eu casglu i bennu cyfleoedd ar gyfer gwella.

101 Er bod templed corfforaethol ar gael, mae ansawdd cynlluniau busnes yn amrywio'n fawr; y mae ambell gynllun yn gadarn ond mae rhai eraill heb fod yn addas i'r diben, o natur ddisgrifiadol yn bennaf ac yn brin o gamau gweithredu neu ganlyniadau mesuradwy. Er bod yr uned perfformiad corfforaethol yn rhoi cefnogaeth amserol ac effeithiol i'r penaethiaid gwasanaeth a'r cyfarwyddwyr, ceir diffyg ansawdd a gweithrediad cyson mewn rhai adrannau sy'n cyfyngu ar y gallu i ddwyn gwasanaethau i gyfrif. Drwy ei TRhC newydd, mae gan y Cyngor gyfle da i atgyfnerthu'r arweiniad ar faterion perfformiad, ac i gryfhau'r cynnydd y mae'r Cyngor eisoes yn ei wneud.

## Mae trefniadau ar waith i reoli risgiau, ond ceir gwendidau sylweddol ar lefel yr Aelodau a hefyd ar lefel swyddogion

102 Mae fframwaith clir ar waith i reoli risgiau corfforaethol a risgiau'n gysylltiedig â phrosiectau, gydag arweiniad penodol lefel uwch o du'r Aelodau a'r swyddogion, a hyrwyddwyr risgiau ar raddfa adrannol. Mae grŵp llywio rheoli risg yn goruchwylio risgiau, ac yn cynnwys cynrychiolaeth wleidyddol o Weithrediaeth y Cyngor. Timau unigol sy'n gyfrifol am gofrestrau risg prosiectau. Darperir cefnogaeth gan swyddogion drwy uned rheoli risg, a chanddi gyllideb a staff penodol. Fodd bynnag, ni cheir rhyw lawer o gyfranogiad gwleidyddol ehangach mewn rheoli risg, ac mae hynny'n amharu ar ddealltwriaeth ehangach o swyddogaeth hynny wrth reoli perfformiad a gwelliant.

103 Cedwir y gofrestr risg gorfforaethol ar y we, a gall adrannau ei chyrchu er mwyn diweddaru eu cofrestrau risg eu hunain. Caiff ei diweddaru a'i hadolygu'n rheolaidd, ddwywaith y flwyddyn. Mae'r Cyngor hefyd yn cynnal adolygiad rheolaidd o'i Strategaeth Rheoli Risg. Ar hyn o bryd, mae'n datblygu ei chweched Strategaeth, gyda chymorth ymgynghorwyr, i gynnig her a safbwynt allanol. Mewn ymateb i bryderon a godwyd yn ein hadolygiad Diogelu, mae'r Cyngor hefyd yn datblygu strategaeth risg newydd ar gyfer Diogelu. Fodd bynnag, mae'r graddau y caiff cofrestrau risg adrannol eu diweddaru'n rheolaidd yn amrywio, ac ni chaiff hyn ei fonitro ar raddfa gorfforaethol.

104 Gwelir yn glir fod rheolaeth ar risg wedi'i hymgorffori ym mharhad busnes ac mewn gwaith cynllunio rhag argyfwng, a gall y Cyngor ddangos bod hynny'n rhan annatod o'r gwaith o ddatblygu strategaethau newydd, megis strategaeth tai fforddiadwy. Mae ystyriaeth o risgiau bellach yn rhan o'r broses benderfynu ffurfiol. Ar dempledi adroddiadau pwyllgor, mae'n ofynnol ymdrin â'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithredu neu beidio gweithredu cyn gwneud penderfyniad ffurfiol, er y gall trylwyredd y gweithredu amrywio.

105 Caiff risgiau strategol allweddol eu hadlewyrchu mewn cynlluniau busnes yn aml, yn enwedig pan geir goblygiadau'n gysylltiedig â'r gyllideb, ond cyfyngir ar y graddau y caiff rheoli risg ei gynnwys fel elfen anhepgor wrth gynllunio busnes. Nid yw rhai cynlluniau busnes yn cysylltu risgiau lefel gwasanaeth na chamau lliniaru â'u cofrestrau risg adrannol perthynol. Mae eraill yn cynnwys asesiad o risgiau, ond nid ydynt yn ystyried camau lliniaru. Un o brif wendidau'r cynlluniau busnes yw'r ffaith na roddir ystyriaeth reolaidd i risgiau sy'n gysylltiedig â rhyng-ddibyniaeth rhwng camau gweithredu (neu ddiffyg gweithredu mewn ymateb i heriau cyllidebol) y naill wasanaeth a'r llall.

106 Yn wahanol i'r rhan fwyaf o awdurdodau, ni chaiff cofrestr risgiau corfforaethol y Cyngor ei goruchwylio gan y Pwyllgor Archwilio. Mae'r Pwyllgor Archwilio'n derbyn cofnodion y grŵp llywio rheoli risg, ond nid yw'n derbyn y gofrestr ei hun. Mae hyn yn atal y Pwyllgor Archwilio rhag cyflawni ei gylch gwaith yng nghyswllt risg, ac mae'n atal unrhyw ymwneud gwleidyddol neu gyhoeddus ehangach yn null y Cyngor o reoli risgiau. Nid yw'n glir sut mae'r trefniant hwn yn cyfrannu at y nod a osodwyd gan y Cyngor, sef bod y cyngor mwyaf agored a thryloyw yng Nghymru.

## Mae'r dull o adrodd wrth y cyhoedd am berfformiad yn agored, yn dryloyw, yn deg ac yn gytbwys

107 Mae'r dull o adrodd wrth y cyhoedd am berfformiad yn deg a chytbwys. Mae'r ACGB wedi'i osod allan yn glir ac yn cyflwyno darlun cynhwysfawr o'r hyn y mae'r Cyngor yn anelu i'w gyflawni, ei gynnydd a sut mae ei berfformiad yn cymharu â chynghorau eraill yng Nghymru. Caiff uchelgeisiau ehangach y Cyngor ar gyfer y gymuned a blaenoriaethau gwella eu hesbonio'n glir, ynghyd â chyfraniad partneriaid tuag at eu cyflawni. Cyflwynir pob canlyniad â blaenoriaeth a phob blaenoriaeth sy'n gysylltiedig ag amcanion gwella allweddol eu cyflwyno mewn modd cyson, gan ddisgrifio'r hyn y mae'r Cyngor wedi'i wneud, yr hyn y mae'n anelu i'w gyflawni, ynghyd â'r mesurau allweddol a ddefnyddir ganddo i fonitro cynnydd.

108 Mae adran a chanddi'r teitl 'A oes unrhyw un ar ei ennill?' yn helpu'r darllenydd i ddeall y gwahaniaeth y mae'r Cyngor yn ei wneud. Mae'r defnydd o astudiaethau achos, canlyniadau arolygon a'r adborth a gynhwysir gan ddefnyddwyr o gymorth i ddod â'r data'n fyw. Cynhwysir gwybodaeth am y gyllideb, ynghyd â chynnydd y Cyngor tuag at sicrhau arbedion a gwella ei drefniadau llywodraethu.

109 Mae cyfuno adolygiad o berfformiad y Cyngor yn y gorffennol â'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd nesaf mewn un ddogfen yn galluogi'r darllenydd i greu darlun cytbwys o berfformiad y Cyngor. Mae'r ACGB yn fanwl a hirfaith, ond hefyd yn cynnwys crynodeb defnyddiol. Gyda'i gilydd, maent yn darparu'r holl wybodaeth y gallai fod ar y darllenydd ei hangen. Caiff yr ACGB a'r crynodeb eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg, a gwneir trefniadau priodol ar gyfer cyhoeddusrwydd. Mae'n hawdd cael hyd i'r adroddiad ar wefan y Cyngor.

110 Dengys canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru (2015) fod 42 y cant o bobl a ymatebodd o'r farn fod y Cyngor yn dda am roi gwybod iddynt sut mae'n perfformio, gan osod Sir Gaerfyrddin yn seithfed o blith y 22 o awdurdodau lleol.

111 Fodd bynnag er bod gwybodaeth gan bartneriaid wedi'i chynnwys yn yr ACGB, nid yw dadansoddiad y Cyngor o effeithiolrwydd partneriaethau wedi'i ddatblygu'n llawn, sy'n golygu ei bod hi'n anodd cynnal gwerthusiad priodol ynghylch a yw'n werth mynd ar drywydd partneriaethau ai peidio.

112 Mae'r Cyngor yn ystyried sut i wella'r ACGB i'w wneud yn fwy tryloyw a hawdd ei ddilyn, heb golli gormod o fanylder. Eleni, ychwanegodd y Cyngor dabl cryno wedi'i godio â lliw er mwyn rhoi cipolwg o dueddiadau perfformio o dan 43 o ddangosyddion allweddol, yn dangos a oedd targedau wedi'u cyrraedd, y cyfeiriad cyffredinol ac unrhyw newidiadau i'r modd yr oedd y perfformiad yn cymharu â gweddill Cymru. Caiff yr ACGB ei herio gan bwyllgorau craffu ar faterion perfformiad cyn cael ei gyhoeddi, a gellid bod lle i ehangu hyn er mwyn cynnwys agweddau ar y cyflwyniad, a sicrhau bod y ddogfen yn hawdd ei deall.

## Cynnig ar gyfer Gwella

| | |
|---|---|
| C6 | Cynllunio ar gyfer Gwella:<br>• rhoi cyfarwyddyd cliriach a lefel broffesiynol o her ar bob mater rheoli perfformiad er mwyn sicrhau bod fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor yn cael ei weithredu'n gyson a rhannu arfer da. |

# Ar y cyd â phartneriaid, mae’r Cyngor yn parhau i wella perfformiad ar draws ei feysydd â blaenoriaeth

113 Mae trefniadau’r cyngor yn ei alluogi i barhau i sicrhau canlyniadau gwell i bobl leol, er gwaethaf her gynyddol sydd o’i flaen oherwydd y pwysau ar gyllidebau. Mae gwasanaethau rheng flaen wedi cael eu diogelu hyd yr eithaf, o ganlyniad i benderfyniadau cyllidebol a ffyrdd mwy effeithlon o weithio. Mae’r perfformiad cyffredinol, fel y mesurir gan y dangosyddion perfformiadu yn parhau i wella. Yn ôl dangosyddion cenedlaethol ar gyfer 2014-15, mae’r perfformiad yn 60 y cant o ddangosyddion perfformiad yn uwch na chyfartaledd Cymru, o gymharu â 51 y cant y flwyddyn gynt. Mae canran y dangosyddion perfformiad lle cafwyd y perfformiad gorau yng Nghymru wedi cynyddu’n gyson dros y pum mlynedd diwethaf i 36 y cant. Ar ben hynny, mae canlyniadau’r Panel Dinasyddion ac Arolwg Cenedlaethol Cymru’n dangos bod bodlonrwydd y cyhoedd â’r Cyngor yn gwella. Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2015, mae 57 y cant o breswylwyr yn fodlon â’r Cyngor a hefyd yn teimlo ei fod yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel. Mae hyn yn cynrychioli gwelliant o bump y cant o gymharu â’r flwyddyn gynt, ac yn ei osod yn chweched o blith 22 o gynghorau Cymru. Mae canlyniadau o’r Panel Dinasyddion yn ôl yn 2014 yn cefnogi hyn, gyda 58 y cant o bobl yn fodlon â’r Cyngor, sef cynnydd o 52 y cant yn 2012.

114 Mae’r canlyniadau hyn yn galonogol mewn cyfnod o gyni ariannol cynyddol lle mae’n rhaid gwneud penderfyniadau anodd ynghylch gwariant. Byddwn yn rhoi adroddiad manylach am berfformiad gwasanaethau’r Cyngor yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol nesaf.

# Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cynnwys cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Cwblhawyd y gwaith hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 y Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad o welliant yn asesiad blaengar o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Y mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn rhoi crynodeb o'i waith archwilio ac asesu mewn Adroddiad Gwella Blynyddol a gyhoeddir ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru